Dyma fi

...... ydw i.

Dw i'n ...... oed.

Dw i'n byw yn ......

Dw i'n mynd i ......

Pwy wyt ti?

Faint ydy dy oed di?

Ble wyt ti'n byw?

Ble wyt ti'n mynd i'r ysgol?

Bocs Bendigedig

a ond achos
gyda hefyd
o'r enw

Dyma fi

Pa liw ydy dy lygaid / wallt?

Mae llygaid glas gyda fi.

Mae gwallt melyn gyda fi.

Oes anifail anwes gyda ti?

Beth wyt ti'n hoffi? Beth dwyt ti ddim yn hoffi?

Oes brawd / chwaer gyda ti?

Beth wnest ti ar y penwythnos?

Es i i nofio.

Oes, mae cath gyda fi.

Does dim ci gyda fi.

Dw i'n hoffi ......

Dw i ddim yn hoffi ......

Oes, mae brawd gyda fi.

Does dim chwaer gyda fi.

Central South Consortium
Consortiwm Canolbarth y De
Joint Education Service
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd



Pa liw gwallt sy' gyda ti?

Mae gwallt brown gyda fi.

Pa liw llygaid sy' gyda ti?

Mae llygaid glas gyda fi.

Oes gwallt du gyda ti?

Oes, mae gwallt du gyda fi.

Nac oes, does dim gwallt du gyda fi.

Wyt ti'n dal / fyr?

Rwy'n dal.

Ydy e'n / hi'n dal ?

Ydy, mae e'n / hi'n dal.

Nac ydy, dyw e / hi ddim yn dal.



Dyma Fi**!

Mark ydw i. Rwy'n ddeg oed ac yn mynd i Ysgol Glan Cleddau. Mae gwallt melyn byr gyda fi a llygaid gwyrdd. Rwy'n dal. Mae clustiau bach gyda fi!

Dyma Fi!***

Harriet ydw i. Rwy'n byw yn Neyland. Rwy'n unarddeg oed ac yn mynd i Ysgol Neyland. Mae gwallt melyn hir gyda fi. Does dim clustiau mawr gyda fi. Mae llygaid glas gyda fi ac rwy'n dal. Mae ceg mawr gyda fi!

Dyma Fi!

Cliciwch ar y sgrîn i gael yr atebion.

Ben ydw i. Rwy'n byw yn Saundersfoot. Mae gwallt du syth gyda fi a thrwyn hir. Rwy'n fyr.

John ydw i. Rwy'n byw yn Hwlffordd. Mae gwallt du gyda fi a llygaid glas. Does dim gwallt cyrliog 'da fi. Rwy'n fyr.

Jennifer ydw i. Rwy'n byw yn Ninbych-y-Pysgod. Mae gwallt coch gyda fi a llygaid brown. Rwy'n dal.

Bethan ydw i. Rwy'n ddeg oed ac yn mynd i Ysgol Hook. Mae gwallt melyn hir gyda fi a llygaid glas. Rwy'n dal. Does dim clustiau mawr 'da fi.



1. Pa liw gwallt sydd gyda Jennifer?
   Mae gwallt coch gyda Jennifer.
2. Pa liw llygaid sydd gyda Bethan?
   Mae llygaid glas gyda Bethan.
3. Oes gwallt melyn gyda Ben?
   Nac oes, does dim gwallt melyn gyda Ben.
4. Oes llygaid glas gyda John?
   Oes, mae llygaid glas gyda John.
5. Ydy Bethan yn dal?
   Ydy, mae Bethan yn dal.
6. Ydy Jennifer yn fyr?
   Nac ydy, dyw Jennifer ddim yn fyr.
7. Ydy Ben yn fyr?
   Ydy, mae Ben yn fyr.

Darllen

Shwmae! Jim ydw i ac rwy'n unarddeg oed. Rwy'n byw yn Neyland gyda'r teulu. Mae pedwar person yn y teulu – fi, Mam, Dad ac un chwaer. Enw fy chwaer ydy Lilly ac mae hi'n wyth oed. Mae hi'n hoffi ysgol! Dw i ddim yn hoffi ysgol! Enw Mam ydy Laura ac mae hi'n bedwar deg oed. Mae mam yn garedig. Enw Dad ydy Steve ac mae e'n bedwar deg un oed. Mae Dad yn ddoniol.

- Dyma.....
- Mae e'n / hi'n byw yn...
- Mae gwallt /llygaid ..... gyda fe /hi
- Does dim..... gyda fe /hi
- Mae e'n / hi'n hoffi bwyta.....
- Dydy e / hi ddim yn hoffi ....



Dyma fy ffrind i. Janet ydy enw fy ffrind. Mae dau frawd ac un chwaer gyda hi. Mae hi'n byw gyda dad, mam a brawd, Dan, mewn tŷ semi yn Llwynglas.

mewn = in a

hi = she

e = he

01

Ar Goll

ENW:	Jac Jones
OED:	trideg pump
BYW:	Hwlffordd
GWALLT:	byr du
LLYGAID:	brown tywyll
CLUSTIAU:	bach
TALDRA:	byr

Gwobr £1000

Ydych chi wedi gweld Jac?

Mae e'n gwisgo het felen, crys oren, trowsus du ac esgidiau brown. Mae e'n hoffi cnoi gwm ac mae e'n hoffi torri twll yn y llawr!

Ffoniwch 67 42 12

allan

Ar y ffôn

Sarjant Price



Beti Borris

Ga i'ch helpu chi?

Heddlu os gwelwch yn dda.

Sarjant Price sy' 'ma.
Beth sy'n bod?

Beti Borris sy'n siarad.
Mae dyn yn busnesan drws nesa!

Sut ddyn ydy e Beti?

Mae gwallt du byr gyda fe ac mae e'n gwisgo crys oren.

Ydy e'n dal neu'n fyr?

Mae e'n fyr.

Oes sbectol gyda fe?

Nac oes, ond mae het felen gyda fe ac mae e'n cnoi gwm.

Aha, Jac Jones. Rwy ar y ffordd nawr ...

allan

Ble est ti? *Es i ....*

Pryd est ti? *Es i.......*

Gyda phwy est ti? *Es i gyda.......*

Beth fwytaist ti? *Bwytais i .....*

Beth wisgaist ti? *Gwisgais i ....*

Sut amser gest ti? *Ces i amser....*



Mae'n amser tacluso.